

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys
y Cyngor, Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambr y Cyngor)**

fore Iau 22^{ain} Ionawr, 2015 am 10.30am

Cyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn: 01443 424062)

Os bydd cyngorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 4 p.m. ar y diwrnod gwaith olaf cyn dyddiad y cyfarfod uchod. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad p'un ai ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. Pe hoffech chi wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062.

PYNCIAU I'W TRAFOD

1 Datganiad Buddiant:

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gyngorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR AR GYFER 2015/2016

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen, er mwyn rhoi gwybodaeth am setliad terfynol cyllideb Llywodraeth Leol 2015/2016 yn gymorth i'r drafodaeth cyn paratoi'r strategaeth ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Mawrth, 2016.

Tudalennau 1–90

3. CYNLLUNIO GWASANAETHAU'R TYMOR CANOLIG – CYNIGION AR GYFER NEWID GWASANAETHAU CYFLWYNO FFIOEDD AM DDEFNYDDIO MEYSYDD CHWARAEON

Derbyn adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n amlinellu'r cynnig sy'n ymwneud â chyflwyno ffioedd am ddefnyddio meysydd chwaraeon.

Tudalennau 91 - 132

4 CASGLU DEUNYDDIAU SYCH MAE MODD EU HAILGYLCHU AC EFFAITH RHEOLIADAU GWASTRAFF (CYMRU A LLOEGR) (DIWYGIO) 2012

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â newidiadau i reoli gwastraff a'r effaith bosibl ar y modd mae'r fwrdeistref yn casglu deunyddiau sych mae modd eu hailgylchu.

Tudalennau 133 - 140

5. CYNLLUN TRAFNIDIAETH LLEOL CYMOEDD DE CYMRU CYFLWYNO FERSIWN TERFYNOL O'R DDOGFFEN.

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen yn gofyn am gymeradwyo Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De Cymru a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Tudalennau 141-282

6. RHAGLEN WAITH Y CABINET..

Derbyn adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n amlinellu Rhaglen Waith y Cabinet ar gyfer cyfnod o dri mis - Chwefror, Mawrth ac Ebrill 2015.

Tudalen 283 – 288

7 MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys mae Cadeirydd y Cabinet yn eu cymeradwyo.

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'A. Iwan Jones', written in a cursive style.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet